

URGENT DENTAL SERVICE

Urgent dental problems are those that cannot wait for routine dental care.

- ✓ Dental and soft tissue infections or swelling of the face or mouth which is not spreading across the neck or towards the eye and where you do not feel unwell.
- ✓ Mouth ulcers, lumps or sores which have been present for more than 3 weeks.
- ✓ Bleeding following dental treatment which cannot be controlled at home.
- ✓ A broken adult tooth which causes severe pain that is not made better by painkillers.
- ✓ Severe uncontrollable dental and facial pain - constant toothache or pain from the mouth that is not made better by painkillers.

You should contact your dental practice/ clinic during usual opening hours if you require urgent dental treatment.

If you need urgent dental treatment outside of your dentist's usual opening hours or if you do not have a dentist, please contact NHS 111 Wales for triage and advice.

- When 111 Wales have undertaken your triage, they may provide you with a reference and a telephone number for the North Wales Dental Helpline.
- When you call the number it will be answered by recorded message, we ask that you listen to all instructions in full in order to access a dental nurse triager.
- The North Wales Dental Helpline is very busy you may experience difficulty in accessing the service, please be patient whilst waiting. Calls can take 10-20 mins to complete.
- A team of dental nurses will be on hand to assist with your dental needs and may offer you an appointment with a dentist as close to your home as possible.
- The appointment may not be on the same day.
- **Please be aware that the urgent dental clinics operate an appointment only service.**
- Please do not attend any urgent dental clinics without an appointment, as you will not be able to be seen.

Non-urgent dental conditions include:

- Pain that responds to pain-relief measures
- Minor dental trauma
- Post-extraction bleeding that the patient is able to control using self-care measures
- Loose or displaced crowns, bridges or veneers, fractured or loose fitting dentures and other appliances
- Fractured posts supporting crowns
- Fractured, loose or displaced fillings
- Treatments normally associated with routine dental care
- Bleeding gums

If your condition is non-urgent you should seek routine care with your own dentist. There may be some non-urgent conditions which can be treated through self-care.

If you have seen your own dentist for a course of treatment within the last three years and have dental pain:

You may still be under the care of your Dentist if you have had a course of treatment within three years or if you have seen a Dentist recently and received treatment but are now experiencing pain. We advise that you speak with your Dental Practice in the first instance. The Dental Practice will have access to your dental records making diagnosis and treatment easier.

Self-Help Information:

If you do not have any of the symptoms already mentioned here are a few self-care measures to tide you over until you see a dentist.

1. Any swelling that isn't travelling down your neck or affecting your eyes, so mild swelling. Apply a cold compress to it, ice from the freezer wrapped in a tea towel and hold it against your face. Do not apply any heat for any dental pain at all and never use clove oil.
2. If you have chipped a tooth and it's causing some pain or trauma to your tongue, we would advise simple measures, for instance wax from baby bell cheese. Just take the wax off, roll it up in to a little ball and pop it in the affected area. It will smooth out the sharpness and will give your tongue a little bit of peace and rest from being agitated from that area.
3. If you have lost a filling and you're not getting too much pain from the area, you can go to the super market or your local pharmacy where they will have a temporary dressing kit, which you can apply to the tooth yourself.
4. If you have dental pain, you can use straightforward paracetamol or ibuprofen, but make sure you take them according to the instructions on the box. Or if you are unsure, speak to a Pharmacist about the correct pain relief for you.

Further information about dental services can be found on our website.

SCAN HERE



Beth yw Argyfwng Deintyddol Gwirioneddol?

Bydd argyfwng deintyddol gwirioneddol ble mae angen i chi fynychu Adran Achosion Brys yn cynnwys un o'r canlynol:

- ✓ Os oes gennych chi chwydd i'r wyneb sy'n effeithio eich golwg, anadlu neu lwybr anadlu.
- ✓ Trawma sy'n arwain at eich dant cyfan, gan gynnwys y gwreiddyn, yn cael ei ddadleoli neu ei fwrw allan.
- ✓ Gwaedu na fydd yn stopio yn dilyn tynnu dant yn ddiweddar.

Nid yw dannoedd, waeth pa mor ddrwg, yn cael ei ystyried yn argyfwng deintyddol. Ni fyddwch chi'n cael gwrthfotigau yn yr Adran Achosion Brys am broblemau deintyddol.

GWASANAETH DEINTYDDOL BRYS

● **Problemau deintyddol brys yw'r rhai na allent aros am ofal deintyddol arferol. Maent yn cynnwys:**

- ✓ Heintiau deintyddol a heintiau meinwe meddal neu chwydd i'r wyneb neu'r geg sydd ddim yn lledaenu ar draws y gwddf neu tuag at y llygaid a lle nad ydych yn teimlo'n sâl.
- ✓ Briwiau, lymphiau neu ddoluriau yn y geg sydd wedi bod yn bresennol am fwy na thair wythnos.
- ✓ Gwaedu yn dilyn triniaeth ddeintyddol na ellir ei reoli gartref.
- ✓ Dant oedolyn sydd wedi torri sy'n achosi poen difrifol sydd ddim yn gwella gyda thabledi lladd poen.
- ✓ Poen deintyddol difrifol yn ogystal â phoen difrifol i'r wyneb na ellir ei reoli - dannoedd gyson neu boen o'r geg sydd ddim yn gwella gyda thabledi lladd poen.

Dylech chi gysylltu â'ch practis/clinig deintyddol yn ystod oriau agor arferol os ydych chi angen triniaeth ddeintyddol frys.

Os fyddwch chi angen triniaeth ddeintyddol frys y tu allan i oriau agor arferol eich deintydd neu os nad oes deintydd gennych chi, cysylltwch â **GIG 111 Cymru i gael eich brysennu a derbyn cyngor.**

- Pan fydd 111 Cymru wedi eich brysennu, efallai y byddant yn rhoi cyfeiriad a rhif ffôn i chi ar gyfer Llinell Gymorth Ddeintyddol Gogledd Cymru.
- Pan fyddwch chi'n ffonio'r rhif, bydd eich galwad yn cael ei hateb gan neges wedi'i recordio, rydym ni'n gofyn i chi wrando ar yr holl gyfarwyddiadau er mwyn cael mynediad at nyrs ddeintyddol sy'n brysennu.
- Mae Llinell Gymorth Ddeintyddol Gogledd Cymru yn brysur iawn felly efallai y byddwch chi'n cael trafferth cael mynediad at y gwasanaeth, byddwch yn amyneddgar wrth aros. Bydd galwadau'n cymryd tua 10-20 munud i'w cwblhau.
- Bydd tîm o nyrsys deintyddol wrth law i gynorthwyo gyda'ch anghenion deintyddol ac efallai y byddant yn cynnig apwyntiad i chi gyda deintydd mor agos â phosibl at eich cartref.
- Efallai na fydd yr apwyntiad ar yr un diwrnod.
- **Byddwch yn ymwybodol bod y clinigau deintyddol brys yn gweithredu gwasanaeth apwyntiad yn unig.**
- Peidiwch â mynychu unrhyw glinigau deintyddol brys heb apwyntiad, gan na fyddwch chi'n cael eich gweld.

Mae cyflyrau deintyddol nad ydynt yn rhai brys yn cynnwys:

- Poen sy'n ymateb i fesurau lleddfu poen
- Mân drawma deintyddol
- Gwaedu ar ôl tynnu dant y mae'r claf yn gallu ei reoli gan ddefnyddio mesurau hunanofal
- Coron rydd neu goron sydd wedi symud; pont neu argaen rhydd neu wedi symud; dannedd gosod wedi torri neu nad ydynt yn ffitio'n iawn a dyfeisiau eraill
- Pyst toredig sy'n cynnal coronau
- Llenwadau sydd wedi torri, yn rhydd neu wedi symud o'u lle
- Triniaethau sydd fel arfer yn gysylltiedig â gofal deintyddol arferol.
- Deintgig gwaedlyd

Os nad yw eich cyflwr yn un brys, dylech chi geisio gofal arferol gan eich deintydd. Efallai y bydd rhai cyflyrau nad ydynt yn rhai brys yn gallu cael eu trin drwy hunanofal.

Os ydych chi wedi gweld eich deintydd am gwrs o driniaeth o fewn y tair blynedd ddiwethaf ac yn profi poen deintyddol:

Efallai y byddwch yn dal i fod o dan ofal eich Deintydd os ydych chi wedi cael cwrs o driniaeth o fewn y tair blynedd ddiwethaf neu os ydych chi wedi gweld Deintydd yn ddiweddar ac wedi cael triniaeth ond eich bod nawr yn profi poen. Rydym ni'n eich cynghori i siarad gyda'ch Practis Deintyddol yn y lle cyntaf. Bydd gan y Practis Deintyddol fynediad at eich cofnodion deintyddol gan wneud diagnosis a thriniaeth yn haws.

Gwybodaeth Hunangymorth:

Os nad oes gennych chi unrhyw un o'r symptomau sydd eisoes wedi'u crybwyll yma, dyma rai mesurau hunanofal i'ch cynnal tan eich bod yn gweld deintydd.

1. Unrhyw chwydd nad yw'n lledaenu i lawr eich gwddf neu'n effeithio eich llygaid, sef chwyddo ysgafn. Rhowch glwt gwasgu oer arno, rhew o'r rhewgell wedi'i roi mewn lliain sychu llestri a'i ddal yn erbyn eich wyneb. Peidiwch byth â rhoi unrhyw fath o wres ar boen deintyddol a pheidiwch byth â defnyddio olew clof.
2. Os ydych chi wedi torri dant ac mae'n achosi poen neu drawma i'ch tafod, rydym ni'n eich cynghori i ddefnyddio mesurau syml, er enghraifft, defnyddio cwyr caws Baby Bell. Tynnwch y cwyr i ffwrdd, rhoi'w ef i mewn i bêl fach a rhowch ef ar yr ardal sydd wedi'i heffeithio. Bydd yn esmwytho'r miniogrwydd a bydd yn rhoi ychydig o heddwch a gorffwys i'ch tafod rhag cael ei frifo gan yr ardal honno.
3. Os ydych chi wedi colli llenwad ac nad ydych chi'n profi llawer o boen o'r ardal honno, gallwch chi fynd i'r archfarchnad neu eich fferyllfa leol lle bydd ganddynt becyn dresin dros dro, lle gallwch chi ei roi ar y dant eich hun.
4. Os oes gennych chi boen deintyddol, gallwch chi ddefnyddio parasetamol neu ibuprofen, ond sicrhewch eich bod yn eu cymryd yn unol â'r cyfarwyddiadau ar y paced. Os ydych chi'n ansicr, siaradwch â'ch Fferylllydd am y dull lleddfu poen gorau i chi.

Gellir dod o hyd i wybodaeth bellach am wasanaethau deintyddol ar ein gwefan:



SGANIWCH YMA:

What is a True Dental Emergency?

A true dental emergency that requires attendance at an Accident and Emergency Department is:

- ✓ If you currently have any facial swelling that is affecting your eyesight, breathing or airway.
- ✓ Trauma resulting in your whole tooth, including the root, being dislodged or knocked out.
- ✓ Bleeding that will not stop following a recent extraction.

Toothache, no matter how bad, is not classed as a dental emergency. You will not be given antibiotics at A&E for dental issues.